Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Canser y Bledren

# Adran Wroleg

---

**Beth mae'r bledren yn ei wneud?**
Organ wag yw'r bledren, sy'n casglu, storio ac allyrru wrin a gynhyrchir gan yr arennau. Mae'r wrin yn draenio i lawr yr wretrau (tiwbiau sy'n cysylltu'r arennau â'r bledren) i'r bledren ac yn crynhoi yno cyn iddi gael ei gwagio, pan fydd hi'n gyfleus.

**Beth yw Canser y Bledren?**
Mae'n glefyd cyffredin a phob blwyddyn mae tua 13,000 o bobl yn y DU yn datblygu canser y bledren. Mae'r rhan fwyaf o ganserau'r bledren yn dod o leinin mewnol y bledren. Os na chaiff canser y bledren ei ganfod a'i drin, gall ledaenu'n ddyfnach i wal y bledren a'r cyhyr a gall ledaenu i'r ysgyfaint a'r esgyrn.

**Beth sy'n achosi canser y bledren?**
Y prif ffactor risg ar gyfer canser y bledren yw ysmygu. Mae ysmygwr bedair gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu canser y bledren. Mae wedi'i gysylltu â rhai diwydiannau, yn enwedig gweithgynhyrchu llifynnau a rwber. Mae dynion dair gwaith yn fwy tebygol o gael canser y bledren na menywod. Wrth i chi fynd yn hŷn, mae eich risg o gael canser y bledren yn cynyddu. Mae canser y bledren yn tueddu i ddigwydd i bobl ganol oed a phobl hŷn ond gall ddigwydd i unrhyw oedran.

**A fydd angen unrhyw brofion neu ymchwiliadau eraill arnaf?**
Mae'n dibynnu ar y math o ganser sydd gennych. Efallai y bydd eich meddyg eisiau i chi gael profion eraill a allai gynnwys:-

- **Pelydr-X y frest**
- **Sgan CT neu Sgan MRI**
- **Sgan o'r Esgyrn**

Weithiau, efallai y bydd eich meddygon yn gofyn am ragor o brofion. Os nad ydych chi'n deall pam mae'r rhain yn angenrheidiol neu beth maen nhw'n ei olygu, yna gofynnwch.

**Beth yw'r driniaeth ar gyfer canser y bledren?**
Mae sawl ffordd o drin canser y bledren a bydd eich triniaeth chi'n cael ei chynllunio'n benodol ar eich cyfer. Gall pobl eraill â chanser y bledren gael triniaeth wahanol i'ch triniaeth chi. Os ydych chi'n pryderu am eich triniaeth ar unrhyw adeg, yna siaradwch gyda'ch meddygon neu nyrs.

**Tynnu Tiwmor y Bledren Trawswrethrol (TURBT)**

Mae llawer o ganserau'r bledren yn effeithio ar leinin y bledren yn unig a gellir eu tynnu gan ddefnyddio resectosgop, telesgop arbennig sy'n cael ei basio ar hyd yr wrethra (pibell ddŵr) i'r bledren. Yna gall y meddyg dorri allan unrhyw ganser y mae'n ei weld a bydd y meinwe yn cael ei anfon i labordy i'w astudio o dan ficrosgop. Byddwch yn cael apwyntiad cleifion allanol ar ôl eich TURBT er mwyn i'ch meddyg allu trafod eich canlyniadau a'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Radiotherapi**
Mae'r driniaeth hon yn dinistrio celloedd canser (a chelloedd normal hefyd) gan ddefnyddio pelydrau-x egni uchel. Bydd yr ardal driniaeth yn cynnwys y bledren ac weithiau'r pelfis cyfan. Ar hyn o bryd rhoddir y driniaeth hon yn Ysbyty Felindre. Bydd gofyn i chi ddod am driniaeth 5 diwrnod yr wythnos (dydd Llun-dydd Gwener) am 4 i 6 wythnos. Mae hon yn driniaeth ar gyfer cleifion allanol ac mae'n cymryd tua 30 munud. Mae'r driniaeth yn ddiboen.

Os yw’ch meddyg yn teimlo mai hon yw’r driniaeth orau i chi, bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi yn fanylach a byddwch yn cael eich cyfeirio at feddyg sy'n arbenigo mewn radiotherapi (Oncolegydd) a chewch ragor o wybodaeth am y driniaeth hon pan fyddwch yn cael eich gweld yn yr apwyntiad hynny.

**Cemotherapi**
Triniaeth sy'n defnyddio cyffuriau sy'n ymyrryd â'r ffordd y mae celloedd yn tyfu ac yn rhannu yw cemotherapi. Fel arfer, bydd y cyffuriau hyn yn cael eu rhoi yn uniongyrchol yn y bledren. Efallai y byddwch yn cael un dos o gemotherapi ar ôl eich TURBT a chwrs pellach wedi hynny, fel claf allanol. Fel arfer rhoddir y driniaeth dros gyfnod o 6 wythnos, unwaith yr wythnos. Os ydych chi'n mynd i gael y driniaeth hon, bydd eich meddyg yn trafod hyn yn fanylach a chewch ragor o wybodaeth bryd hynny.

**Systectomi**
Er y gellir rheoli'r rhan fwyaf o ganserau'r bledren gyda'r triniaethau uchod, mae rhai canserau'n lledaenu y tu hwnt i leinin y bledren i gyhyr wal y bledren. Mae'n well trin rhai o'r canserau hyn trwy dynnu'r bledren yn llwyr i helpu i leihau'r risg o ledaenu'r canser ymhellach.

Os yw'r llawdriniaeth hon yn angenrheidiol, byddwch yn cael gwybodaeth fanwl amdani. Bydd nyrs sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig (nyrs stoma) yn gallu cynnig cyngor a chymorth ymarferol i chi ar sut i addasu i'r sefyllfa newydd hon.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y driniaeth? (heblaw cleifion systectomi)**

**Gwirio Systosgopiau**
Er y gellir rheoli'r canser yn dda iawn, mae’n gallu bod yn gyffredin iddo ailymddangos ar unrhyw adeg. Felly, ar ôl eich triniaeth, mae'n angenrheidiol i chi gael archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod popeth yn iawn.

Defnyddir systosgop hyblyg i edrych i mewn i'ch pledren i wneud yn siŵr ei bod yn glir o ganser. Defnyddir anesthetig lleol i wneud hyn a bydd y prawf hwn yn cael ei wneud fel gweithred i gleifion allanol. Os yw'r bledren yn parhau i fod yn rhydd o

unrhyw diwmor, bydd yr amser rhwng archwiliadau yn cael ei ymestyn ac yn raddol gynyddu i wirio’n flynyddol yn unig. Bydd yr archwiliadau hyn yn parhau drwy gydol eich oes neu tan y byddwch yn glir o unrhyw diwmor am flynyddoedd lawer. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am hyn.

Os canfyddir bod y canser wedi dychwelyd ar unrhyw adeg, byddwch yn mynd yn ôl i gael archwiliadau’n amlach bob 3 i 6 mis.

**Cleifion systectomi** – Ar ôl eich llawdriniaeth, bydd eich meddyg yn trefnu i'ch gweld yn yr Adran Cleifion Allanol i fonitro'ch cynnydd.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae rhifau cyswllt y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg isod: -**

**Wardiau Wroleg-**

D 2 Y Dwyrain ar:- 01633 234043 / 234044 ( 24 awr )

D 2 Y Gorllewin ar:- 01633 234131 ( 24 awr)

Nyrsys Wro-oncoleg Arbenigol;

- Julie Simpson
- Kath Connor-Middleton
- Louise Broadway
- Jess Morgan

Ar:- Rhifau Ffôn:- 01633 – 238976 / 01873 – 732081

**Cyfeiriadau:-**

Tanagho E A McAninch J W 2003.  Smiths General Urology